

## **CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 13eg Chwefror, 2017, yn Neuadd Goffa, Sarn, o 7.30 p.m. hyd 8.20 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Carys H. Evans (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Carys E. Williams (Is-Gadeirydd)  
Y Cynghorwyr David Brunelli, S.R. Jones, Glyn Roberts, Michael Strain,  
Harry Richards, Glenys Williams  
Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Ifor Owen, Gillian Walker

### **87. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Croesawodd y Cadeirydd** yr aelodau i'r cyfarfod a chroesawodd Y Cynghorydd Glyn Roberts ar ôl ei waeledd diweddar.

### **88. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ffurflen.

### **89. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 9fed IONAWR, 2017**

**Cyflwynwyd**, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 9fed Ionawr, 2017.

#### **MATERION YN CODI**

##### **a) Eitem 78 Ymweliad Dr. Dr. O.G. Morris, Meddygfa Rhydbach**

**Cyflwynwyd** adroddiad gan y Clarc iddi dderbyn galwad ffôn gan Dr. O.G. Morris yn gofyn a fyddai modd iddo gael cyfarfod y Cyngor ym mis Ebrill eleni, sef tri mis ynghynt nag a gytunwyd yn wreiddiol. Rhoddwyd dyddiad cyfarfod Ebrill iddo a gofynwyd am gadarnhad y Cyngor i hyn.

**Penderfynwyd** cadarnhau'r cyfarfod.

##### **b) Eitem 80 Cadarnhau Cofnodion – cymal (b) ... Arwyddion ARAF yn Sarn**

**Cyflwynwyd** gwybodaeth gan Reolwr Traffig, Gwaith Stryd a Phrosiectau, Cyngor Gwynedd, yn hybysu eu bod yn ystyried cyflwyno Gorchymyn Cynfyngiad Cyflymder o 40 mya o'r pwynt lle mae 30 mya yn gorffen ger Gerlan, Sarn, heibio tai'r Cyngor.

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth gyda boddhad.

### c) Eitem 79 – Materion Ffyrdd – cymal (2) Stad Congl Meinciau

**Adroddodd** y Clarc ei bod yn bryderus iawn ynglyn a'r ffaith nad oedd unrhyw ymateb yn cael ei dderbyn oddi wrth Grwp Cynefin ynglyn a chais y Cyngor i ddiogelu'r fynedfa i'r 'Stad.

**Penderfynwyd** anfon at Mr. Wallace George, Prif Weithredwr Grwp Cynefin a'r Cynghorydd Gweno Glyn i ofyn am eu cymorth i ddod a'r mater yma i ben.

### (ch) Eitem 79 (d) Adolygiad Etholiadol

**Cyflwynwyd** adroddiad Y Cynghorydd Carys H. Evans ar y cyfarfod fu iddi fynychu yng Nghaernarfon ar 9fed Chwefror, 2017. Siomedig oedd y nifer a fynychodd y cyfarfod a dywedodd fod ym mwriad y Comisiwn i gwtogi nifer yr aelodau o 75 i 67 erbyn 2022, sef un aelod ar gyfer pob 2,000 o etholwyr. Nodwyd pryder y byddai cefn gwlad yn cael eu hamddifadu o lais ar y Cyngor gan nad yw nifer yr etholwyr yn cyfiawnhau cynrychiolaeth yn ôl y fformiwla uchod.

Yn y cyswllt hwn hefyd cyflwynwyd llythyr oddi wrth Brif Weithredwr Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, yn gwahodd sylwadau ar yr adolygiad.

**Penderfynwyd** gohirio hyd y cyfarfod nesaf.

### (d) Eitem 81 – Materion Ffyrdd

**Cyflwynwyd** ymateb y Peiriannydd Ardal Dwyfor i gwynion anfonwyd i'w sylw:

“Ffordd heibio Graig Fael, Bryncroes – mae'r tyllau wedi eu hadnabod yn ystod y drefn archwiliadau ffyrdd ac wedi eu cynnwys ar y rhestr waith clytio ddymunol.

Lôn Ffolt – mae'r tyllau ar y ffordd yma wedi eu cau.”

### (dd) Eitem 85 – Cwrs

**Cyflwynwyd** adroddiad y Clarc iddi fynychu cyfarfod ym Mhenrhyndeudraeth ar 2ail Chwefror, 2017, yn dwyn y teitl 'Modiwl 21 Cyllid Llywodraeth Leol.'

Roedd yn gwrs lle rhoddwyd nifer o sylwadau 'roedd yn ofynnol i'r Cyngor ymgymryd a hwy sef:

Cynrychioli – gofynnwyd i ni hysbysu'r aelodau o'r pwysigrwydd i gofio mai cynrychioli'r trethdalwyr oedd eu rôl bob amser.

Y Clarc – rhaid oedd cael swydd ddisgrifiad i'r Clarc/Swyddog Ariannol priodol yn unol a Deddf Llywodraeth Leol 1972

Archwiliwr Mewnol – rhaid oedd cael cytundeb rhwng yr Archwiliwr Mewnol ar gyfer pob blwyddyn – eleni cyn 31ain Mawrth, 2017 ac yna yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2017 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18.

Ffurflen archwilio'r cyfrifon – rhaid rhai eitem ar raglen y Cyngor i gadarnhau ymateb i Adran 2 o'r ffurflen yma.

Mae'n ofynnol i fabwysiadu'r Rheolau Sefydlog/Ariannol/ Aseidiadau Risg yn flynyddol mewn Cyfarfod Blynyddol. (Nodyn bydd yn rhaid i'r cyfarfod ym mis Mawrth eu mabwysiadu ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17).

Rhaid i bob Cyngor gael wefan a rhaid i'r cyfryw fod yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Talu lwfansau Cyngorwyr – rhaid derbyn penderfyniad ar hyn yn flynyddol – bydd yr adroddiad allan ddiwedd mis Chwefror eleni.

Adroddiad i'r Cyngor ar y sefyllfa ariannol – rhaid gwneud hyn unai bob chwarter neu hanner blwyddyn.

Rhaid rhoddi rhybudd o gyfarfod o'r Cyngor i fyny mewn manau cyhoeddus o fewn y Gymdeithas.

Ni ellir ystyried unrhyw eitem fydd ddim wedi ei gynnwys ar y rhaglen mewn unrhyw gyfarfod.

Hawl i gadw arian wrth gefn o un flwyddyn ariannol l'r llall – yr argymhelliad yw

“dim mwy na 12 mis o gostau rhedeg y Cyngor rhwng 3-12 mis.”

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth ac:

- 1)** Fod y Cadeirydd a'r Cyngorwyr Glyn Roberts a Glenys Williams i baratoi swydd ddisgrifiad ar gyfer y Clarc/Swyddog Ariannol priodol.
- 2)** Fod hysbyseb i nodi dyddiad y Cyngor i'w rhoi i fyny ym Motwnnog, Sarn a Bryncroes.
- 3)** Fod sefydlu gwefan i'w ohirio er gweld beth fyddai'n deillio o'r hysbyseb yn Llanw Llyn i sefydlu gwefan i'r papur lleol.

## 90. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Cyflwynwyd** cais C17/0054/32/LL – adeiladu estyniadau unllawr a modurdy yn Cynfal, Botwnnog.

**Penderfynwyd** cefnogi'r cais.

## 91. **MATERION FFYRDD**

**Penderfynwyd** anfon y materion a ganlyn ymlaen i'r Peiriannydd Rhanbarthol, Cyngor Gwynedd:

Twll dwfn tu allan i iard Ty Mawr Capel, Bryncroes

Tyllau o groeslon Graig Ewig am Groeslon Muriau, Bryncroes ac hefyd y ffordd yn gogwyddo

Datgan pryder fod y bont ger 'Sgoldy, Bryncroes, yn gogwyddo ac yn berygl.

92. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater i'w drafod.

93. **AWDURDOD I DALU**

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliad isod:

Un Llais Cymru – cwrs i'r Clarc                      £35.00

O berthynas i fil dderbyniwyd oddiwrth Archwiliad Cymru penderfynwyd gofyn am farn Un Llais Cymru ynglyn a'r bil uchel dderbyniwyd.

94. **ARLOESI GWYNEDD WLEDIG**

**Nodwyd** fod croeso i unrhyw aelod fynychu cyfarfod Arloesi Gwynedd ym Mhwllheli ar 22ain Mawrth, 2017.

95. **CYNLLUN DATBLYGU LLEOL GWYNEDD A MON**

**Nodwyd** fod y dogfennau uchod i law ac fod croeso i unrhyw aelod gael golwg drostynt.